THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

# Adroddiad Barn Rhanddeiliad

# Hydref 2017



# Crynodeb Gweithredol

Yn ystod gwanwyn 2017, comisiynodd y Gymdeithas gwmni annibynnol, AMJ Communications, i gynnal cyfres o gyfweliadau'n edrych ar ganfyddiadau allanol o'r Gymdeithas gyda golwg ar fwydo barn rhanddeiliaid, gan gynnwys y Gymrodoriaeth, i ddatblygiad strategaeth pum mlynedd nesaf y Gymdeithas.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o syniadau adeiladol gan roi golwg werthfawr ar y meysydd y byddai rhanddeiliaid yn hoffi i'r Gymdeithas ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

Dros y saith blynedd diwethaf mae'r Gymdeithas wedi sefydlu ei hun yn gorff uchel ei barch a chredadwy. Mae ei rhanddeiliaid yn ystyried bod y Gymdeithas wedi'i hadeiladu ar seiliau cryf a'i bod yn chwarae rhan gynyddol bwysig ym mywyd Cymru.

Ymhlith y meysydd y dylai'r Gymdeithas eu hystyried mae'r cwestiwn a yw'n adrodd stori ddigon clir am ei gwaith er mwyn i randdeiliaid allu *mynegi ei blaenoriaethau ac ehangder ei gweithgareddau*.

Fel gyda chyrff tebyg, gofynnodd rhanddeiliaid a Chymrodyr hefyd i'r Gymdeithas wneud mwy i hyrwyddo amrywiaeth yn ei phobl a'i gwaith, a sicrhau nad yw'n canoli popeth yn ormodol yng Nghaerdydd.

Ceir awydd clir ymhlith rhanddeiliaid a Chymrodyr ar i'r Gymdeithas gynyddu ei heffaith a helpu i *ffurfio trafodaethau ar faterion o bwys cenedlaethol i Gymru*, gan gynnwys beth y gallai Brexit ei olygu i Gymru, pa fath o lywodraethu mae Cymru'n ei ddymuno a'i angen, a sut mae Cymru'n manteisio ar gyfleoedd i gyfoethogi ei llesiant economaidd fel cenedl.

Mae'r rhanddeiliaid yn awyddus i'r Gymdeithas ystyried *ehangu ei diffiniad o'r hyn mae bod yn 'ddysgedig' yn ei olygu*, a chreu cyfleoedd i eraill, efallai o fewn diwydiant neu ar gamau cynnar eu gyrfa, chwarae rôl yn y Gymdeithas.

Cred rhanddeiliaid na chafwyd erioed gyfnod pwysicach i **lais y Gymdeithas** gael ei chlywed gyda materion pwysig, tymor hir i'w trafod mewn bywyd cyhoeddus ac argyfwng ymddiriedaeth mewn sefydliadau ac o ran cyngor arbenigol. Pe bai'r Gymdeithas yn codi ei phroffil, yn buddsoddi i dyfu ei thîm a'i chyfleusterau, mae rhanddeiliaid yn hyderus y gallai gynyddu ei heffaith.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn gefnogaeth gadarnhaol i waith ac arweiniad y Gymdeithas – **corff a ystyrir yn awdurdodol, annibynnol, credadwy a meddylgar**. Roedd rhanddeiliaid a Chymrodyr yn awyddus i'r Gymdeithas adeiladu ar y seiliau cryf hyn i helpu i yrru Cymru yn ei blaen ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr, academyddion a phobl ddysgedig.

Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i'r Cymrodyr a'r unigolion a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn y prosiect.

## Cefndir

Ym mis Mai 2017, comisiynodd y Gymdeithas Ben Jones o AMJ Communications i gynnal ymarfer canfyddiadau rhanddeiliaid i gefnogi datblygiad ei chynllun strategol nesaf.

Casglwyd adborth mewn dwy ffordd:

- Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid allanol a rannwyd yn nifer o grwpiau i adlewyrchu rhanddeiliaid y Gymdeithas. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn ar sail gyfrinachol nad oedd modd eu priodoli.
- Anfonwyd arolwg ar-lein i'r holl Gymrodyr.

Gwahoddwyd 61 o randdeiliaid allanol i gyfranogi a chynhaliwyd 40 o gyfweliadau ar wahân gyda chyfanswm o 45 o randdeiliaid, cyfradd cyfranogi o 67%.

Anfonwyd yr arolwg ar-lein drwy ebost i'r 460 o Gymrodyr. Derbyniwyd 87 o ymatebion, cyfradd ymateb o 19%. Mae'r gyfradd ymateb hon yn unol ag ymarferion eraill ar gyfer cyrff tebyg.

Roedd y rhanddeiliaid a gyfranogodd yn y prosiect yn cynrychioli ystod eang o gyrff er mwyn casglu adborth a chanfyddiadau gan gynulleidfaoedd anghyfarwydd yn ogystal â rhai cyfarwydd - cynhwyswyd unigolion i gynrychioli cyrff neu feysydd na fyddai'n adnabod y Gymdeithas yn dda neu efallai a fyddai â chysylltiad minimal yn unig â hi.

Clywodd y prosiect gan y sbectrwm llawn hwn o gyrff ac unigolion.

# Yr adborth

Gellir grwpio'r adborth gan randdeiliaid a Chymrodyr dan bum thema:

- *Mae'r Gymdeithas wedi'i hadeiladu ar seiliau cryf ac mae wedi gwneud cynnydd da*
- *Ceir peth ansicrwydd am union rôl, ffocws a naratif y Gymdeithas*
- *Gofynnir i'r Gymdeithas fynd ymhellach gydag amrywiaeth; o ran ei phobl a'i gwaith*
- *Ceir bwlch yn y farchnad ar gyfer llais annibynnol, a berchir, sy'n awdurdodol ac yn amhleidiol*
- *Diffiniad o'r gair 'dysgedig' a chynyddu cyrhaeddiad ac effaith y Gymdeithas*

## Seiliau cryf a chynnydd da

Roedd canfyddiad eang fod y Gymdeithas, yn ei hanes cymharol fyr, wedi'i sefydlu ei hun gyda'r rhanddeiliaid oedd yn ymgysylltu â'r prosiect hwn fel corff credadwy, awdurdodol, sy'n gwneud gwaith da a phwysig. Roedd adroddiadau'r Gymdeithas yn benodol yn cael eu hystyried yn rhai sylweddol a nodwyd bod dyfarnu medalau yn gyfraniad cadarnhaol gan y Gymdeithas i fywyd Cymru.

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan randdeiliaid wrth drafod eu profiadau o ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r Gymdeithas. Roedd canmoliaeth gyson i arweinyddiaeth y Gymdeithas yn ystod y prosiect, yn enwedig y Prif Weithredwr a'r Llywydd.

Os oedd pryder o gwbl, roedd canfyddiad bod angen rhagor o arian a phobl ar y Gymdeithas i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol mae wedi'i wneud hyd yma i gynyddu ei heffaith.

Roedd y rhanddeiliaid hynny oedd yn gwybod pwy oedd aelodaeth y Gymrodoriaeth hefyd yn canmol ansawdd uchel y bobl a etholwyd, unwaith eto yn eu disgrifio'n hynod gredadwy ac awdurdodol. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon gan nifer fach o randdeiliaid y dylai'r Cymrodyr fod yn fwy amrywiol a'i bod yn bosibl nad yw rhai unigolion a sefydliadau - gan gynnwys rhai y tu allan i Gaerdydd - yn teimlo'n gymaint o ran o waith dydd i ddydd y Gymdeithas neu o'r Gymrodoriaeth ag y mae eraill yn ei deimlo.

## Ansicrwydd ynghylch rôl, ffocws a naratif y Gymdeithas

Er bod canfyddiad cryf fod y Gymdeithas wedi'i hadeiladu ar seiliau cryf ac yr ystyrid ei bod wedi cael effaith cadarnhaol yn ystod ei hoes fer, roedd peth ansicrwydd yn parhau am yr hyn yr oedd yn ei wneud yn union. Roedd tua hanner o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth na dealltwriaeth o ehangder gwaith y Gymdeithas ac nid oeddent yn teimlo y gallent fynegi ei meysydd allweddol o ran gwaith neu flaenoriaeth. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn awyddus i'r Gymdeithas godi ei phroffil a mynegi neges gryno, gliriach am ei rôl a'i ffocws. Siaradodd nifer am yr angen i'r Gymdeithas "ddweud ei stori" mewn modd syml, mwy cymhellol.

Gwnaeth nifer o randdeiliaid y pwynt fod y Gymdeithas yn unigryw ymhlith sefydliadau yng Nghymru am ei bod yn gallu siarad am faterion a chynnull trafodaethau o safle amhleidiol, niwtral, gan ddefnyddio ei hygrededd fel corff annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth i godi materion anodd, tymor hir.

Awgrymodd nifer sylweddol o randdeiliaid mai'r cam naturiol nesaf i'r Gymdeithas oedd sicrhau teitl brenhinol, ochr yn ochr â'i siarter a'i nawdd brenhinol. Teimlwyd y byddai cael "brenhinol" yn y teitl yn codi statws a phroffil y Gymdeithas yn naturiol a bod hwn yn gam pwysig nesaf yn ei datblygiad fel sefydliad.

Roedd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini o'r tu allan i Gymru, yn teimlo bod y Gymdeithas wedi gwneud ei gwaith gorau wrth weithio gydag academyddion eraill ac y dylai barhau i wneud mwy o hyn. Doedd hi ddim yn syndod mai'r pwnc amlycaf yn y rhan fwyaf o'r trafodaethau oedd Brexit. Gyda hyn mewn golwg, roedd rhanddeiliaid yn teimlo ei bod yn bryd gosod mwy o bwyslais ar waith a chydweithio rhyngwladol ar lefel y DU a thu hwnt i'r DU.

## Mynd ymhellach gydag amrywiaeth a chynhwysiad

Yr her a godwyd yn fwyaf cyffredin o ran y Gymdeithas oedd amrywiaeth – mewn perthynas â chymrodoriaeth y Gymdeithas a natur y gwaith mae'n ei wneud. Roedd hyn yn cynnwys adborth gan randdeiliaid a Chymrodyr.
O ran pobl, roedd yr adborth yn awgrymu bod angen i'r Gymdeithas wneud mwy i amrywio ei chymrodoriaeth gyda mwy o bwyslais ar gael rhagor o fenywod mewn swyddi uchel, yn cynrychioli'r Gymdeithas mewn digwyddiadau ac yn y Gymrodoriaeth.

Ochr yn ochr â hyn, roedd pryder fod angen i'r Gymdeithas wneud mwy i hybu llais a chyfraniad pobl iau, gan ofni bod y Gymdeithas yn cael ei gweld fel sefydliad sydd ond yn cymryd pobl o ddifrif neu yn rhoi swyddi pwysig neu statws iddynt os ydynt dros oed arbennig.

O ran ei gwaith, roedd yr adborth yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau nad oedd y gymdeithas yn rhy "Gaerdydd-ganolog" a bod angen cynnal rhagor o ddigwyddiadau ac ymgysylltu y tu allan i Gaerdydd.

Ar yr un pryd, awgrymodd rhanddeiliaid a chymrodyr ei bod yn bwysig i'r rheini sy'n gweithio gyda'r Gymdeithas – boed mewn prifysgolion, diwydiant neu rannau eraill o gymdeithas – gynnwys pobl ar wahân i'r "wynebau arferol" o'r prifysgolion mawr. Gofynnodd cymrodyr a rhanddeiliaid am fwy o ddigwyddiadau rhanbarthol, gyda'r Gymdeithas yn ceisio gwneud mwy yng nghanolbarth a gogledd Cymru.

Er bod peth gwerthfawrogiad nad y Gymdeithas yw'r unig gorff sy'n wynebu canfyddiadau o amrywiaeth a chynhwysiad annigonol yn ei phobl a'i gwaith – a chydnabyddiaeth fod y Gymdeithas yn gwneud ymdrechion cadarnhaol – roedd nifer o randdeiliaid yn siomedig bod y materion hyn wedi codi o ystyried ieuenctid cymharol y Gymdeithas. Roedd llawer yn ystyried ieuenctid y Gymdeithas yn gyfle allweddol i fynd i'r afael ag amrywiaeth.

Roedd nifer o randdeiliaid yn teimlo bod angen gwneud mwy i ddathlu'r ystod lawn o ragoriaeth ymchwil ac addysg yng Nghymru – ac nid yn y disgyblaethau gwyddonol yn unig.

Er gwaethaf galwadau rheolaidd ar y Gymdeithas i gofleidio amrywiaeth ehangach yn ei phobl a'i gwaith, roedd yr holl randdeiliaid yn rhybuddio'r Gymdeithas rhag unrhyw beth a fyddai'n gwanhau ei ffocws ar ragoriaeth. Dywedwyd bod rhaid cynnal safon uchel gwaith y Gymdeithas a chadernid ei gweithgaredd ac nad yw aberthu hynny er budd amrywiaeth ehangach yn bris sy'n werth ei dalu.

## Bwlch yn y farchnad ar gyfer llais annibynnol, a berchir, sy'n awdurdodol ac yn amhleidiol

Amlygwyd y cyd-destun cyfredol y mae'r Gymdeithas yn gweithredu ynddo gan nifer fawr o randdeiliaid fel un sy'n cynnig cyfle sylweddol i'r Gymdeithas.

Crybwyllwyd y trafodaethau parhaus am ddyfodol Cymru a'r DU ar ôl Brexit, y trafodaethau parhaus am ddyfodol datganoli a phwerau i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad yng Nghymru, ynghyd â'r heriau a wynebir mewn addysg uwch, fel rhesymau pam fod rôl a llais y Gymdeithas yn bwysicach nag erioed.

Siaradodd llawer o randdeiliaid am yr hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel byw mewn "byd ôl-wirionedd" gyda thrafodaethau am "newyddion ffug". Awgrymwyd bod argyfwng o ran ymddiriedaeth ym marn arbenigwyr, yn enwedig y rheini sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau cyhoeddus am faterion uchel eu proffil a bod y ffordd y cânt eu portreadu yn y cyfryngau'n dwysau'r argyfwng ymddiriedaeth hwn. Dywedwyd felly eu bod yn credu ei bod yn bryd ail-bwysleisio pwysigrwydd hanfodol annibyniaeth, ymchwil a gwaith sy'n academaidd gadarn.

Gyda hyn mewn golwg, cododd rhanddeiliaid a Chymrodyr nifer o faterion a meysydd gwaith penodol ble roedd teimlad y gallai llais y Gymdeithas gael ei glywed neu ei chwyddo.

O ran Brexit, mynegwyd barn gref yn aml yn ystod y prosiect fod y drafodaeth bresennol yng Nghymru - yn enwedig mewn cylchoedd dysgedig - yn rhy gul. Y farn a fynegwyd yn ystod y prosiect oedd y gallai'r Gymdeithas helpu i ehangu'r drafodaeth a symud y ffocws at faterion sydd ag effaith tymor hir, sylfaenol ar ddyfodol Cymru fel gwlad, fel dyfodol y diwydiant bwyd yn dilyn Brexit. Soniwyd hefyd am yr angen am lawer mwy o drafodaeth fwy gwybodus ynghylch sgiliau, swyddi, twf, cynaladwyedd economaidd, bywyd gwledig yng Nghymru, diwylliant, y diwydiant bwyd a'r diwydiannau seilwaith gofodol a thrafnidiaeth yng Nghymru. Amlygwyd y materion mawr, tymor hir hyn fel rhai sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru ac ar gyfer cadw talentau graddedigion yng Nghymru.

## Ailddiffinio "dysgedig" a chynyddu cyrhaeddiad ac effaith y Gymdeithas

Er bod rhanddeiliaid yn gyson eu canmoliaeth i ansawdd y gwaith a wneir gan y Gymdeithas a hygrededd a statws ei Chymrodyr, awgrymodd llawer y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gymdeithas yn ystyried mabwysiadu diffiniad ehangach o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn "ddysgedig". Awgrymwyd y byddai hyn yn helpu'r Gymdeithas i gynyddu ei heffaith drwy estyn allan at eraill – y tu hwnt i feysydd traddodiadol academia sy'n ffurfio Cymrodoriaeth y Gymdeithas – yn enwedig mewn diwydiant a meysydd eraill mewn bywyd sifig, fel y sector gwirfoddol.

Roedd llawer o randdeiliaid a Chymrodyr o'r farn y gallai'r Gymdeithas fod yn fwy llwyddiannus fyth pe bai ganddi fwy o arian - gan ganiatáu iddi gynnal mwy o ddigwyddiadau, cyflawni mwy o waith a chydweithio'n amlach gydag academïau cenedlaethol a chymdeithasau dysgedig eraill. Teimlwyd hefyd y byddai cynyddu proffil y Gymdeithas yn ei helpu i gyflawni rôl allweddol y mae rhanddeiliaid a Chymrodyr wedi'i amlygu - eu bod am i'r Gymdeithas osod mwy o bwyslais ar hyrwyddo a dathlu ymchwil yng Nghymru.

Un awgrym a godwyd sawl tro oedd datblygu rhaglen Cymrodyr "Iau" neu "Gyswllt" - er mwyn ehangu'r gronfa y mae'r Gymdeithas yn tynnu arni ac adeiladu cysylltiadau cryfach gydag unigolion a sefydliadau a allai ei helpu i gyflawni ei chenhadaeth, gan gynnwys ffigurau o ddiwydiant. Awgrymwyd syniad tebyg arall yn ystod y prosiect gan nifer o randdeiliaid; sef datblygu aelodaeth gorfforaethol neu bartneriaeth a allai ganiatáu i gwmnïau ddod yn "gyfeillion y Gymdeithas".

Er mwyn adeiladu ar ei llwyddiant a'r seiliau cryf a osodwyd ym mlynyddoedd cyntaf y Gymdeithas, awgrym cyson gan randdeiliaid oedd rhagor o fuddsoddi i adeiladu tîm mwy o faint, symud i safle mwy o faint a mwy mawreddog a datblygu rhaglenni allgymorth i ysbrydoli pobl mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a thu hwnt.

# Y camau nesaf

Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r adborth gan randdeiliaid allanol a Chymrodyr. Yn gyfunol, roedd yn nodi bod cyfle i'r Gymdeithas adeiladu ar ei seiliau cryf. Mae lle ar gyfer ymchwil ac ystyriaeth bellach, gan gynnwys yn benodol sut y gall y Gymdeithas godi ei phroffil yn well a mynegi neges gryno, glir am ei rôl a'i ffocws.

Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i Gyngor y Gymdeithas ym mis Hydref 2017. Roedd llawer o'r themâu wedi'u rhagweld ac roedd y Gymdeithas eisoes wrthi'n gweithio ar rai o'r awgrymiadau.

Mae'r heriau a chyfleoedd canlynol yn cael sylw'r Gymdeithas ar hyn o bryd:

- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad**

Mae'r Gymdeithas eisoes yn cynnal Adolygiad Amrywiaeth mawr er mwyn:

  - sicrhau bod gan y Gymdeithas arferion ar waith i sicrhau tegwch a chydraddoldeb yn ei holl waith;
  - sicrhau nad oes unrhyw grŵp sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas yn cael triniaeth anffafriol ar sail ethnigrwydd, oed, anabledd, rhywedd, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, hil, lliw, crefydd neu gred;
  - sicrhau bod talent haeddiannol mewn unrhyw gymuned yn cael ei hannog i ymuno â'r Gymrodoriaeth a bod enwebiadau'n cael eu trin â thegwch cyfartal;
  - darparu polisi newydd i'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, wedi'i gynllunio i sicrhau bod y Gymdeithas yn cydymffurfio â'i hoblygiadau dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

- **Llywodraethu**
  - Adolygiadau parhaus o weithdrefnau llywodraethu i sicrhau eu bod yn addas i'r unfed ganrif ar hugain

- **Dathlu ysgolheictod**
  - Bydd y Gymdeithas yn lansio medal newydd yn dathlu ymgysylltu cyhoeddus yn 2018

- **Allgymorth ac ymgysylltu ag ysgolion**
  - Mae'r Gymdeithas wrthi'n datblygu rhaglen beilot o waith allgymorth gydag ysgolion

- **Negeseuon gydag effaith gryfach:**
  - Mae gwelliannau i wefan y Gymdeithas ar waith, a strategaeth gyfathrebu'n cael ei datblygu

- **Teitl Brenhinol**
  - Cytunodd Cyngor y Gymdeithas yn 2015 y byddai'n ceisio teitl Brenhinol maes o law

Mae'r Gymdeithas wedi dechrau datblygu cynllun strategol ar gyfer 2018-2022, yn amlinellu blaenoriaethau ac uchelgais ar gyfer twf cynaliadwy'r sefydliad.

Cyhoeddir y strategaeth yn ystod hydref 2018.